*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Democratic Services (07385401877)

Bydd cyfarfod hybrid o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 16EG RHAGFYR, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 14 RHAGFYR 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION 04.11.21**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2021 yn rhai cywir.

**7 - 12**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 20/1445**

Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl (18 annedd). (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecoleg y Glaswelltir ar 15/07/21), **Y tir y tu ôl i 15 ac 16 Ffordd y Rhigos, Hirwaun, Aberdâr**

**13 - 30**

**6. CAIS RHIF: 21/1328**

Cynllun arfaethedig i ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol sy'n cynnwys 60 o fflatiau ynghyd â'r gwaith cysylltiedig, gan gynnwys gwaith tirlunio, system ddraenio gynaliadwy, cyfleusterau mynediad a pharcio, **Cartref Gofal Dan Y Mynydd, Coedlan Bronwydd, Cymer, Porth**

**31 - 58**

**7. CAIS RHIF: 21/0274**

Adeilad ffrâm borthol (storio/dosbarthu) arfaethedig (Uned 2) (Dosbarth Defnydd B8), Cam 2, **Y tir cyferbyn â Storamove, Ystad Ddiwydiannol Parc Aberaman, Aberaman, Aberdâr**

**59 - 68**

**8. CAIS RHIF: 21/0831**

Adeiladu maes parcio i ategu'r cyfleusterau parcio a theithio presennol yng Ngorsaf Drenau'r Porth (Cam 3 Cynllun Parcio a Theithio), gan gynnwys gwaith adlinio ffordd fynediad Ystad Ddiwydiannol Rheola, gwaith draenio, gosod goleuadau stryd, teledu cylch cyfyng a gwaith tirlunio. (Derbyniwyd y Datganiad Trafnidiaeth ar 23 Medi 2021, Derbyniwyd Asesiad Risg Mwyngloddio ar 27 Hydref 2021), **Ffordd Fynediad Rheola / Ystad Ddiwydiannol Rheola, Porth.**

**69 - 84**

**9. CAIS RHIF: 21/0942**

Cynllun i ymestyn cwrtil yr ardd a chreu llawr caled, **Merrivale, Ffordd Llwydcoed, Aberdâr**

**85 - 94**

**10. CAIS RHIF: 21/1102**

Gwaith adeiladu er mwyn hwyluso'r broses o adleoli'r iard stoc drig. (Derbyniwyd Cynllun Rheoli Aroglau ar 30 Medi 2021, Derbyniwyd Datganiad gan y Milfeddyg a chynlluniau diwygiedig, sy'n lleihau maint yr adeilad ac yn gwella'r dirwedd, ar 18 Hydref 2021), **Cae Croft Yr Haidd, Castellau, Beddau, Pont-y-clun, CF72 8LQ**

**95 - 114**

**11. CAIS RHIF: 21/1250**

Adeiladu bloc garej newydd sy'n cynnwys 3 garej sengl, **Tir ger Woodville, Heol Pantygraigwen, Pontypridd**

**115 - 124**

**12. CAIS RHIF: 21/1267**

Trosi eiddo yn 8 fflat un ystafell wely, gan gynnwys estyniad deulawr yn y cefn, newidiadau mewnol a maes parcio oddi ar y stryd yn y cefn (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 18/10/21 a disgrifiad diwygiedig ar 18/10/21), **Tŷ Gwynfa, Yr Heol Fawr, Pentre'r Eglwys, Pontypridd**

**125 - 136**

**13. CAIS RHIF: 21/1310**

Cynllun dymchwel ac ailddatblygu i ddarparu anheddau preswyl ynghyd â gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Cofnodi Adeilad Hanesyddol ar 22 Tachwedd 2021), **Ysgol Babanod Pen-y-graig, Heol Hendrecafn, Pen-Y-Graig, Tonypandy**

**137 - 154**

**14. CAIS RHIF: 21/1330**

Datblygiad tai fforddiadwy, sy'n cynnwys 11 fflat 1 ystafell wely a 2 fflat 2 ystafell wely wedi'u haddasu'n llawn ynghyd â maes parcio, gwaith tirlunio, gwaith ategol, **122-126 Stryd Dunraven, Tonypandy, CF40 1QB**

**155 - 170**

**15. CAIS RHIF: 19/1082**

Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer Cam 3 a Cham 4 Parc Llanilid (a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol (hybrid) 10/0845/34) i gynnwys 494 uned preswyl a gwaith seilwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a/neu wybodaeth ychwanegol/wedi'i diweddaru ar 24/06/21 (ffurflen gais wedi'i diweddaru, cynllun safle ('K'), cynlluniau a strategaeth tirlunio, cynllun Thetford a chynllun uned GAD 1 ystafell wely); 20/07/21 (cynllun safle ('L')); 22/07/21 (datganiad dylunio trefol wedi'i ddiweddaru); 27/07/21 (Cynllun Symud wedi'i ddiweddaru); 03/08/21 (cynlluniau peirianneg a'r Adroddiad Sŵn wedi'u diweddaru); 28/09/21 (cynlluniau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r mathau newydd o dai); 12/10/21 (cynlluniau tirwedd wedi'u diweddaru); 18/11/21 (cynllun safle ('N')) a 23/11/21 (cynlluniau peirianneg diwygiedig/wedi'u diweddaru, strategaeth tirwedd a chynlluniau plannu), **Tir ar hen safle glo brig a thir i'r gogledd o'r A473, Llanilid**

**171 - 192**

**<u>CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO</u>**

**16. CAIS RHIF: 21/0256**

Newid defnydd eiddo masnachol yn rhannol i eiddo preswyl er mwyn creu dau adeilad masnachol ac wyth fflat, ynghyd â gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Adroddiad Llifogydd ar 05/07/2021 a derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 07/07/2021), **22-22A Stryd Caerdydd, Aberdâr** (Adrodd yn ôl)

**193 - 206**

**<u>ADRODDIAD ER GWYBODAETH</u>**

**17. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 22/11/2021 – 03/12/2021.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

**207 - 216**

**18. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd W Owen,
Y Cynghorydd D Williams, Y Cynghorydd W Lewis and Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd